

**2008 Rhif 3101 (Cy.275)**

**AER GLÂN, CYMRU**

**Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg  
(Lleoedd Tân Esempt) (Cymru)  
2008**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (“Deddf 1993”) yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn a wnaed o dan adran 21 o Ddeddf 1993, esemptio dosbarthau penodedig ar leoedd tân rhag darpariaethau adran 20, os ydynt wedi eu bodloni y gall lleoedd tân o'r fath gael eu defnyddio at losgi tanwydd nad yw'n danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli gyda diwygiadau Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2980) (Cy.271).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn esemptio'r dosbarthau ar leoedd tân a restrir yn y golofn gyntaf yn yr Atodlen i'r Gorchymyn rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf 1993, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr ail golofn yn yr Atodlen honno.

Cafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## 2008 Rhif 3101 (Cy. 275)

### AER GLÂN, CYMRU

#### Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008

*Gwnaed* 3 Rhagfyr 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 4 Rhagfyr 2008

*Yn dod i rym* 31 Rhagfyr 2008

Mae Gweinidogion Cymru, a hwythau wedi eu bodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad yw'r danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(1) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

#### **Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

#### **Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

2. Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen yn cael eu hesemptio, ar yr amodau sy'n cael

---

(1) 1993 p.11.

(2) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac fe'u trosglwyddwyd wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac Atodlen 11 iddi.

eu pennu ynddi, rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

### **Dirymu**

**3.** Dirymir Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2980 (Cy.271)).

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

3 Rhagfyr 2008

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## DOSBARTHAU AR LEOEDD TÂN SY'N ESEMPT

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Binder Wood Fired Boiler, modelau RRK 22 – 49 (allbwn 49kW), a weithgynhrychir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) Mitterdorfer Strasse 5, A-8572 Barnbach, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited, sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance, y dyddiad 17 Mai 2005, a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Binder Wood Fired Boiler, modelau RRK 80 – 175 (allbwn 75 – 149 kW), ynghyd â modelau seiclôn ZA 80 – 175, a weithgynhrychir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) Mitterdorfer Strasse 5, A-8572 Barnbach, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited, sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance, y dyddiad 17 Mai 2005, a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Binder Wood Fired Boiler, modelau RRK 130 – 250 (allbwn 185 - 230 kW), 200-350 (allbwn 250-300kW), 400-600 (allbwn 350-500 kW), 640-850 (allbwn 650-840kW), â seiclôn (model math ZA), a weithgynhrychir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) Mitterdorfer Strasse 5, A-8572 Barnbach, Awstria. Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited, sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance, y dyddiad 17 Mai 2005, a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Binder Wood Fired Boiler, model RRK 1000 (allbwn 1200 kW) ag amlseiclôn (model MZA), a weithgynhrychir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited, sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance, y dyddiad 17 Mai 2005, a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Biomatic 220 a 250 â gwahanfur seiclôn Zyκλοvent 220-250, a weithgynhrychir gan HERZ Armaturen Ges.m.b.H, Geschäftsbereich HERZ, Feuerungstechnik, A-8272 Sebersdorf 138, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ebrill 2005, a'r cyfeirnod Bedienungsanleitung Englisch v2.0 doc.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio sglodion coed, pelenni coed neu naddion coed wedi ei blaenio, ond heb gynnwys unrhyw sglodion, pelenni neu naddion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Biomatic 300, 350, 400 a 500 â gwahanfur seiclôn Zyklusent 300-500, a weithgynhyrchir gan HERZ Armaturen Ges.m.b.H, Geschäftsbereich HERZ, Feuerungstechnik, A-8272 Sebersdorf 138, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ebrill 2005, a'r cyfeirnod Bedienungsanleitung Englisch v2.0 doc.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio sglodion coed, pelenni coed neu naddion coed wedi ei blaenio, ond heb gynnwys unrhyw sglodion, pelenni neu naddion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Stofiau llosgi coed y Clearview Pioneer 400, y Solution 400 a'r Pioneer Oven, ac iddynt stop mecanyddol i rwystro ymyrraeth â'r llithren aer/damper, a weithgynhyrchir gan Clearview Stoves, More Works, Bishops Castle, Swydd Amwythig, SY9 5HH.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y teitl Operating Instructions Clearview Vision/Vision Inset/Pioneer &amp; Solution, y dyddiad 1 Gorffennaf 2006, y cyfeirnod V1/42, a'r stamp a'r llofnod Smoke Control.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio boncyffion coed wedi eu hawyrsychu, ond heb gynnwys unrhyw foncyffion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Yr CTC Ecoflex 15 a 20 a weithgynhyrchir gan Enertech AB, Box 313, S-341 26 Ljungby, Sweden.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 20 Chwefror 2007, a'r cyfeirnod 161 505 27 06/1.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Lleoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Dovre 250 (model DV-250) a weithgynhrychir gan Dovre NV, Nijverheidsstraat 18, BE-2381 Weelde, Gwlad Belg.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau y gwneuthurwr, sy'n dwyn y cyfeirnod PM250 Issue 1.</p> <p>Rhaid bod stop parhaol yn ei le ar y fewnfa awyr eilradd i rwystro'i chau y tu hwnt i'r sefyllfa 75 y cant ar agor.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Dunsley Yorkshire Stove a weithgynhrychir gan Dunsley Heat Limited, Bridge Mills, Huddersfield Road, Holmfirth, Yorkshire HD9 3TW.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 5 Awst 1998, a'r cyfeirnod A/22160, fel y'u diwygiwyd gan y cyfarwyddiadau sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004, a'r cyfeirnod D13.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio,</p> <p>mawn neu friciau mawn ac ynddynt, ym mhob achos, lai na 25% o leithder.</p> <p>Union Coal Briketts, a weithgynhrychir gan Rheinbraun AG o'r Almaen, sef lignit wedi ei wasgu'n friciau tua 15cm o hyd, sy'n sgwâr ar bob pen ac y mae sylffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1% o gyfanswm eu pwysau.</p> <p>CPL Wildfire, a weithgynhrychir gan Coal Products Ltd., Immingham, sef glo rhwym â chynnwys anweddol sy'n cyfateb i 32-36% (o tua 96% o gyfanswm ei bwysau), ac â chyflynydd resin wedi ei galedu drwy oeri (sy'n cyfateb i weddill ei bwysau), a weithgynhrychir o'r cyfansoddion hynny drwy gyfrwng proses o wasgu drwy rollo; mae'n pwyso ar gyfartaledd naill ai 80-90 gram neu 160-170 gram, ac y mae swlffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1.8% o gyfanswm ei bwysau.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Dunsley Yorkshire Multifuel Stove a weithgynhrychir gan Dunsley Heat Limited, Bridge Mills, Huddersfield Road, Holmfirth, Yorkshire HD9 3TW.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 5 Awst 1998 a'r cyfeirnod A/22160, fel y'u diwygiwyd gan y cyfarwyddiadau sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004, a'r cyfeirnod D13.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p> <p>Mawn neu friciau mawn ac ynddynt, ym mhob achos, lai na 25% o leithder.</p> <p>Union Coal Briketts, a weithgynhrychir gan Rheinbraun AG o'r Almaen, sef lignit wedi ei wasgu'n friciau tua 15cm o hyd, sy'n sgwâr ar bob pen ac y mae sylffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1% o gyfanswm eu pwysau.</p> <p>CPL Wildfire, a weithgynhrychir gan Coal Products Ltd., Immingham, sef glo rhwym â chynnwys anweddol sy'n cyfateb i 32-36% (o tua 96% o gyfanswm ei bwysau), ac â chyflynydd resin wedi ei galedu drwy oeri (sy'n cyfateb i weddill ei bwysau), a weithgynhrychir o'r cyfansoddion hynny drwy gyfrwng proses o wasgu drwy rollo; mae'n pwyso ar gyfartaledd naill ai 80-90 gram neu 160-170 gram, ac y mae swlffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1.8% o gyfanswm ei bwysau</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Boiler a weithgynhrychir gan Dunsley Heat Limited, Bridge Mills, Huddersfield Road, Holmfirth, Yorkshire HD9 3TW.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 5 Awst 1998, a'r cyfeirnod A/22160, fel y'u diwygiwyd gan y cyfarwyddiadau hynny sy'n dwyn y dyddiad 4 Hydref 2004, a'r cyfeirnod GHD/DUN4B/1..</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p> <p>mawn neu friciau mawn ac ynddynt, ym mhob achos, lai na 25% o leithder.</p> <p>Union Coal Briketts, a weithgynhrychir gan Rheinbraun AG o'r Almaen, sef lignit wedi ei wasgu'n friciau tua 15cm o hyd, sy'n sgwâr ar bob pen ac y mae sylffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1% o gyfanswm eu pwysau.</p> <p>CPL Wildfire, a weithgynhrychir gan Coal Products Ltd., Immingham, sef glo rhwym â chynnwys anweddol sy'n cyfateb i 32-36% (o tua 96% o gyfanswm ei bwysau), ac â chyflynydd resin wedi ei galedu drwy oeri (sy'n cyfateb i weddill ei bwysau), a weithgynhrychir o'r cyfansoddion hynny drwy gyfrwng proses o wasgu drwy rollo; mae'n pwyso ar gyfartaledd naill ai 80-90 gram neu 160-170 gram, ac y mae swlffwr yn cyfateb i ddim mwy nag 1.8% o gyfanswm ei bwysau.</p>
<p>Y Dunsley Yorkshire Woodburning Stove a weithgynhrychir gan Dunsley Heat Limited, Bridge Mills, Huddersfield Road, Holmfirth, Yorkshire HD9 3TW.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004, a'r cyfeirnod D13W.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
Y Dunsley Yorkshire Woodburning Stove and Boiler a weithgynhyrchir gan Dunsley Heat Limited, Bridge Mills, Huddersfield Road, Holmfirth, Yorkshire HD9 3TW.	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004, a'r cyfeirnod D13W ynghyd â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 4 Hydref 2004, a'r cyfeirnod GHD/DUN4B/1.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio coed sych heb ei drin, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
Yr Extraflame: Babyfiamma Bella and Bella Lux Clementina Comfort Maxi Contessa Divina, Divina Plus a Divina Steel Duchessa a Duchessa Steel Ecologica Esmeralda ac Esmeralda Crystal Falò 1CP, Falò 2CP a Falò 1XP Isabella Karolina Preziosa Fe'u cynhyrchir i gyd gan Extraflame S.p.a ym Montecchio Precalcino (Vicenza), yr Eidal.	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 5 Mawrth 2007, a'r cyfeirnod 004275101 011.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
The Extraflame Comfort Mini a weithgynhyrchir gan Extraflame S.p.a ym Montecchio Precalcino (Vicenza), yr Eidal.	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 2 Hydref 2006, a'r cyfeirnod 004275115 REV 005.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Lleoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Yr Extraflame Idro a weithgynhrychir gan Extraflame S.p.a ym Montecchio Precalcino (Vicenza), yr Eidal.</p>	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 28 Awst 2006, a'r cyfeirnod 004275128 REV 002.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Yr Extraflame Lucrezia Idro a'r Lucrezia Steel, a weithgynhrychir gan Extraflame S.p.a ym Montecchio Precalcino (Vicenza), yr Eidal.</p>	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad 12 Gorffennaf 2006, a'r cyfeirnod 004275110 REV 011.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Firematic 25, 50, 90 a 150 a weithgynhrychir gan HERZ Armaturen Ges.m.b.H, Geschäftsbereich HERZ, Feuerungstechnik, A-8272 Sebersdorf 138, Awstria.</p>	<p>1. Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Mehefin 2005, a'r cyfeirnod Bedienungsanleitung Firematic V 1.1 ENG doc.</p> <p>2. Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio sglodion coed, pelenni coed, neu naddion coed wedi ei blaenio ond heb gynnwys unrhyw sglodion, pelenni neu naddion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y FirematicTurbomat 28, 35, 48 a 55 a weithgynhyrchir gan Fröling Heizkessel-und Behälterbau Ges.m.b.H.,Industriestraße 12, A-4710 Grieskirchen, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Tachwedd 2003, a'r cyfeirnod M 060 01 03.</p> <p>Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Awst 2002, a'r cyfeirnod 99229a.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio sglodion coed â chynnwys lleithder o lai na 35% sy'n bodloni ONORM (a) M 7133; 1998 dosbarth maint G30 ond heb gynnwys unrhyw sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y FirematicTurbomat 85, 100 a 110 a weithgynhyrchir gan Fröling Heizkessel-und Behälterbau Ges.m.b.H., Industriestraße 12, A-4710 Grieskirchen, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Tachwedd 2003, a'r cyfeirnod M 060 01 03.</p> <p>Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Awst 2002, a'r cyfeirnod 99229a.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio sglodion coed â chynnwys lleithder o lai na 35% sy'n bodloni ONORM (a) M 7133; 1998 dosbarth maint G30 ond heb gynnwys unrhyw sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Fröling Turbomat 150 a 220 a weithgynhyrchir gan Fröling Heizkessel-und Behälterbau Ges.m.b.H.,Industriestraße 12, A-4710 Grieskirchen, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Awst 2003, a'r cyfeirnod BO310003.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Y Froling Turbomat 320 a 500 a weithgynhrychir gan Froling Heizkessel und Behalterbau Ges. M.b.H., Industriestraße 12, A-4710 Grieskirchen, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Tachwedd 2004, a'r cyfeirnod B0340004.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Gilles HPK-RA 13 kW, 15 kW, 20 kW, 25 kW, 30 kW, 35 kW, 40 kW, 45 kW, 49 kW, 60 kW, 70 kW, 75 kW, 85 kW, 95 kW, 100 kW, 120 kW, a 145 kW; fe'u cynhyrchir i gyd gan GILLES Energie-und Umwelttechnik GmbH, Koaserbauer Str. 16 A-4810 Gmunden, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2007, a'r cyfeirnod Gilles/0-145/1.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Gilles HPK USK 150 kW, 180 kW, 240 kW a 300 kW, a weithgynhrychir gan GILLES Energie-und Umwelttechnik GmbH, Koaserbauer Str. 16 A-4810 Gmunden, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2007, a'r cyfeirnod Gilles/150-300/1.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Y Gilles HPK USK 360 kW a weithgynhrychir gan GILLES Energie-und Umwelttechnik GmbH, Koaserbauer Str. 16 A-4810 Gmunden, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2008, a'r cyfeirnod Gilles 360/1.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Lleoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Boileriaid Gilles UTSK 450 kW, 550 kW, 700 kW, 900 kW, 1200 kW a 1600 kW a weithgynhrychir gan GILLES Energie-und Umwelttechnik GmbH, Koaserbauer Str. 16 A-4810 Gmunden, Awstria.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2008, a'r cyfeirnod Gilles 360/1.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed neu sglodion coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Yr Hoval BioLyt 50 Wood Pellet Boiler (allbwn thermol 49kW) a weithgynhrychir yn Slofacia gan Hoval AG, Austrasse 70, 9490 Vaduz, Liechtenstein.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â gwybodaeth dechnegol a chyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Hydref 2005, a'r cyfeirnod 4 204794/00 a chyfarwyddiadau defnyddio sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2006, a'r cyfeirnod 4 204 793/01.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
<p>Yr Hoval BioLyt, modelau 50 a 70 a weithgynhrychir gan Hoval AG, Austrasse 70, 9490 Vaduz, Liechtenstein.</p>	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â gwybodaeth dechnegol a chyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Mehefin 2007, a'r cyfeirnod 4 204 794/01 a 4 204 793/02.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed â diamedr o 6mm, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>

<i>Dosbarthau ar Lleoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
Yr Hoval AgroLyt 20, 25, 35, 45 a 50 a weithgynhrychir gan Hoval AG, Austrasse 70, 9490 Vaduz, Liechtenstein.	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â gwybodaeth dechnegol a cyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Ionawr 2006, a'r cyfeirnod 4 205 194/00, a'r rhai sy'n dwyn y cyfeirnod 4 205 193/00 a'r dyddiad Mehefin 2006.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio boncyffion coed ac ynddynt lai na 20% o leithder, ond heb gynnwys unrhyw goed o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
Yr Hoval STU 150, 200, 250, 300, 350, 425 a 500 a weithgynhrychir gan Hoval UK Ltd, Northgate, Newark-on-Trent, Nottinghamshire, NG24 1JN.	<p><b>1.</b> Rhaid gosod, cynnal a chadw a defnyddio'r lle tân yn unol â gwybodaeth dechnegol a cyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr, sy'n dwyn y dyddiad Tachwedd 2007, a'r cyfeirnod STUman/01.</p> <p><b>2.</b> Nid oes unrhyw danwydd i'w ddefnyddio ac eithrio pelenni coed â diamedr o 6mm, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi eu trin â chadwolion pren neu i fod wedi eu cotio.</p>
